**LC1319**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol ac Amrywiol (Cymru) (Diwygio) 2006

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio’r Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) 2002 er mwyn estyn y rhain i asiantaethau meddygol annibynnol yng Nghymru. Mae diwygiadau canlyniadol hefyd yn cael eu gwneud i Reoliadau Cofrestru Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2002.

### Rheol Sefydlog 11.7

Mae’r pwyntiau canlynol wedi’u nodi o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae Rheoliad 3 yn amlinellu trefniadau trosiannol mewn perthynas â chofrestru dan "y Ddeddf". Does dim diffiniad o "y Ddeddf" wedi’i ddarparu at ddibenion y Rheoliadau hyn. (Mae’r term "y Ddeddf" fel y defnyddir ef yn rheoliad 2(2) sy’n rhoi’i mewn reoliad newydd 4A yn Rheoliad Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) 2002 yn cael ei ddarllen yn unol â’r diffiniad a amlinellir yn y Rheoliadau hynny). Awgrymir fod diffiniad o "y Ddeddf" yn cael ei ddarparu at ddibenion y Rheoliadau hyn. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae testun Saesneg rheoliad 3 yn cynnwys cyfeiriad at 7 Mehefin 2006; does dim dyddiad cyfatebol yn

y testun Cymraeg. [Rheol Sefydlog 11.7(v)].

Gall y mân gamgymeriadau drafftio a gyfeiriwyd atynt uchod gael eu cywiro trwy Femorandwm Cywiriadau.

## Sylwadau

Mae pwyntiau fformatio sy’n briodol i’w cywiro wrth gyhoeddi wedi’u nodi wrth y cyfreithiwr sy’n drafftio.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 20 Mehefin 2006